Severn Trent Water Limited
Severn Trent Centre
2 St John's Street
Coventry CV1 2LZ

0845 6007405
Llun-Sad 8am – 8pm
Rhif Minicom 0800 328 1155

Cofrestrwyd yng Nghymru a
Lloegr, rhif 2366686

RHYBUDD AM FWRIAD I FABWYSIADU CARTHFFOSYDD PREIFAT A DRAENIAU OCHROL

At: Berchennog/Perchnogion carthffosydd preifat a draeniau ochrol

Mae cwmni Severn Trent Water Cyfyngedig (Severn Trent Water) yn rhoi rhybudd dan Adrannau 102 a 105A Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 ("y Ddeddf"), yn unol â chynllun neu gynlluniau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol dan Reoliadau'r Diwydiant Dŵr (Cynlluniau ar gyfer Mabwysiadu Carthffosydd Preifat) 2011 ("y Rheoliadau Trosglwyddo"):

1. ar 1 Hydref 2011:

    a. y bydd unrhyw garthffos breifat (ac eithrio gorsafoedd pwmpio a draeniau neu garthffosydd y priffyrdd) a leolir o fewn ardal carthffosiaeth Severn Trent Water ac a fydd, yn union cyn 1 Gorffennaf 2011, yn cysylltu â charthffos gyhoeddus; a

    b. unrhyw ddraen ochrol preifat (ac eithrio gorsafoedd pwmpio) a fydd, yn union cyn 1 Gorffennaf 2011, yn cysylltu â charthffos gyhoeddus a freiniwyd yn Severn Trent Water; a

2. ar 1 Hydref 2016, y bydd unrhyw orsaf bwmpio sy'n ffurfio rhan o garthffos neu ddraen ochrol o'r fath ac nas trosglwyddwyd i Severn Trent Water cyn y dyddiad hwnnw, yn trosglwyddo i Severn Trent Water a dod yn garthffos gyhoeddus neu ddraen ochrol cyhoeddus dan berchnogaeth Severn Trent Water oni bai fod y garthffos breifat neu'r draen ochrol preifat dan sylw yn destun apêl sydd heb ei phenderfynu, o dan Adran 105B y Ddeddf.

Nid yw'r rhybudd hwn yn berthnasol i garthffosydd preifat neu ddraeniau ochrol preifat:

1. sydd dan berchnogaeth ymgymerwr rheilffordd; neu

2. a leolir ar neu o dan dir y Goron ac y mae Severn Trent Water wedi derbyn rhybudd ysgrifenedig cyn 1 Gorffennaf 2011 gan yr awdurdod perthnasol fod y garthffos breifat neu'r draen ochrol preifat yn eithriedig.

Gall unrhyw berchennog carthffos breifat, draen ochrol preifat neu orsaf bwmpio neu unrhyw un arall yr effeithir arno gan y cynnig i fabwysiadu carthffos breifat, draen ochrol preifat neu orsaf bwmpio, neu fethiant i wneud hynny, apelio i'r Swyddfa Gwasanaethau Dŵr (Ofwat) cyn pen 2 fis ar ôl i'r rhybudd hwn gael ei gyflwyno neu ei gyhoeddi, p'run bynnag yw'r hwyraf. Mae'r seiliau ar

gyfer apelio i'w gweld yn Adran 105B(3) y Ddeddf. Gellir cysylltu ag Ofwat yn Centre City Tower, 7 Hill Street, Birmingham, B5 4UA neu drwy anfon e-bost i : appealpstransfer@ofwat.gsi.gov.uk

Mae gan unrhyw dermau a ddefnyddir yn y Rheoliadau Trosglwyddo yr un ystyr yn y rhybudd hwn.

Mae Severn Trent yn darparu gwasanaethau carthffosiaeth i chi ond efallai y bydd cwmni dŵr arall yn eich bilio am y gwasanaethau hyn.

Severn Trent Water Cyfyngedig **Rhagor o wybodaeth drosodd**

www.stwater.co.uk/sewerownership

A dyma beth mae'n ei olygu:

Ar 1 Hydref 2011 bydd y llywodraeth yn trosglwyddo'r holl bibellau carthffosiaeth y tu allan i ffiniau eich eiddo a phob pibell garthffosiaeth sy'n cael eu rhannu ag eiddo arall o fewn eich ffiniau, i'r cwmnïau carthffosiaeth/dŵr. Bydd gorsafoedd pwmpio sydd dan berchnogaeth breifat ac sy'n bodloni'r un meini prawf hefyd yn cael eu mabwysiadu gan gwmnïau carthffosiaeth/dŵr ar 1 Hydref 2016 neu cyn hynny.

Pam mae'r trosglwyddiad hwn yn digwydd?

Ar hyn o bryd, y perchnogion eiddo sy'n gyfrifol fel rheol am y pibellau carthffosiaeth sy'n draenio i'r carthffosydd cyhoeddus, hyd at y man lle maent yn cysylltu â'r carthffosydd hyn. Gall hyn gynnwys pibellau sy'n mynd tu hwnt i ffin eu heiddo. Yn aml, nid yw pobl yn gwybod eu bod yn gyfrifol am waith trwsio a chynnal a chadw beunyddiol y draeniau a'r pibellau hyn nes i broblem ddigwydd a hwythau'n wynebu bil, a allai fod yn fawr.

Bydd y trosglwyddiad yn sicrhau y bydd yr asedau'n cael eu cynnal a'u cadw yn fwy effeithiol, yn lleihau anghydfod rhwng cymdogion ynghylch costau trwsio a bydd yn caniatáu i rwydwaith y carthffosydd gael ei reoli'n well.

Sut y bydd y cyfrifoldebau yn newid?

Heddiw
Perchnogion eiddo sy'n gyfrifol fel rheol am bopeth hyd at y brif garthffos, gan gynnwys y cysylltiad.

Ar ôl trosglwyddo

- Bydd pob carthffos tu hwn i ffiniau eiddo a charthffosydd o fewn ffiniau eiddo sy'n cael eu rhannu ag eiddo arall, yn trosglwyddo i Severn Trent Water.
- Bydd perchnogion eiddo yn dal yn gyfrifol am y draeniau preifat o fewn eu ffiniau.



Nid oes angen i chi wneud dim byd. Bydd y pibellau sy'n trosglwyddo i ni yn trosglwyddo yn awtomatig. Bydd pibellau draenio o fewn ffiniau eich eiddo, sy'n draenio eich eiddo yn unig, yn dal yn gyfrifoldeb i chi.

Sut y bydd hyn yn effeithio ar fy mil?

Bydd y cyfrifoldeb ychwanegol y byddwn yn ei dderbyn yn effeithio ar filiau carthffosiaeth, gan rannu'r gost rhwng ein holl gwsmeriaid. Mae DEFRA, sef un o adrannau'r llywodraeth, wedi amcangyfrif y gallai hyn ychwanegu rhwng £3 a £14 y flwyddyn at filiau cwsmeriaid ond gallai'r swm fod yn uwch a bydd yn dibynnu ar faint o draul a gwisgo sydd ar y pibellau, faint sy'n cael eu blocio ac ar benderfyniadau OFWAT, sy'n rheoleiddio taliadau'r cwmnïau dŵr. Gallwch helpu i gadw biliau Severn Trent Water cyn ised ag y bo modd trwy beidio â rhoi braster ac olewau i lawr

y sinc a pheidio â rhoi cynhyrchion misglwyf, cadachau babanod a ffyn cotwm i lawr y toiled. Byddwn yn dal i sicrhau y bydd y gwasanaeth a gewch yn rhoi'r gwerth gorau posibl am arian.

Am ragor o wybodaeth a chwestiynau cyffredin ewch i www.stwater.co.uk/sewerownership